

PENNAETH SAIN

Mae Theatr y Sherman yn cynhyrchu fersiwn deithiol newydd o Macbeth a fydd yn ymarfer ac yn agor yn Theatr y Sherman, Caerdydd, ac yna'n teithio i dri lleoliad partner (Theatr Torch – Aberdaugleddau, Theatr Clwyd – yr Wyddgrug, a Pontio – Bangor).

Mae **Macbeth [re]imagined** yn rhan o fenter Craidd Cyngor Celfyddydau Cymru i brif-frydio cynrychiolaeth gyda ac ar gyfer pobl Fyddar, anabl a niwrowahanol ledled Cymru. Mae hefyd yn ceisio gyrru newid cadarnhaol yn y sefydliadau partner dan sylw, yn ogystal ag yn sector ehangach y theatr.

Mae'r cynhyrchiad yn cynnwys cast o 8.

DYDDIADAU

Wythnos Olaf yr Ymarferion/Ffitio	w/d 15 Chwefror 2026
Ymarferion Technegol	w/d 1 ac 8 Mawrth
Rhagddangosiad Cyntaf	Nos Wener 12 Mawrth
Noson i'r Wasg	Nos Fawrth 16 Mawrth
Perfformiad Terfynol yn y Sherman	Nos Sadwrn 27 Mawrth

DYDDIADAU TEITHIO

Theatr Torch	w/d 5 a 12 Ebrill (perfformiad cyntaf 8 Ebrill)
Theatr Clwyd	w/d 19 a 26 Ebrill (perfformiad cyntaf 22 Ebrill)
Theatr Pontio	w/d 3 a 10 Mai

Y TÎM CREADIGOL

Cyfarwyddwr	Francesca Goodridge
Golygfeydd a Deialog Ychwanegol	Rebecca Jade Hammond
Cyfarwyddwr Cyswllt	Alice Eklund
Dramatwrg	Rebecca Jade Hammond
Cyfarwyddwr Symud	Jess Williams
Cynllunydd Set a Gwisgoedd	Hayley Grindle
Cynllunydd Goleuo	Ryan Joseph Stafford
Cynllunydd Fideo a Chapsiynau Creadigol	Ben Glover
Cyfansoddwr	Lloyd Coleman
Cynllunydd Sain	Russell Ditchfield

TÎM TEITHIO

Rheolwr Llwyfan y Cwmni
 Dirprwy Reolwr Llwyfan
 Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol
 Rheolwr Llwyfan Technegol
 Cynorthwyol (Pwyslais Sain)
 Pennaeth Fideo
 Gweithredwr Capsiynau
 Pennaeth Sain
 Cynorthwydd Technegol
 Rheolwr Gwisgoedd

Manylion y Rôl:

Bydd y Pennaeth Sain teithiol yn ymuno â'r cynhyrchiad yn ystod wythnos olaf yr ymarferion/wythnos ffitio.

Bydd yr holl gwmni yn gwisgo meicroffonau radio a bydd y Rheolwr Llwyfan Technegol Cynorthwyol yn cefnogi'r Pennaeth Sain gyda rigio dyddiol a gwiriadau meicroffon, ac yn cefnogi gefn llwyfan yn ystod y sioe.

Bydd y sioe yn teithio gydag ychydig bach o offer; mae hyn i'w gadarnhau, ond mae'n debygol o gynnwys:

- Desg Sain
- Meicroffonau Radio
- Meicroffonau Reiffl
- Rac QLab

Bydd y Pennaeth Sain Teithiol yn gyfrifol am osod yr offer sain teithiol ym mhob lleoliad yn ogystal â diwygio ac addasu'r PA mewnol fel bo'n ofynnol ar gyfer y sioe.

Bydd y Pennaeth Sain Teithiol yn gyfrifol am weithrediad sain y sioe (gan gynnwys gweithredu QLab a meicroffonau radio), gofalu am yr offer sain a sierhau gwerth cynhyrchu uchel bob amser.

Bydd y Pennaeth Sain Teithiol yn bresennol ar gyfer y ffitio ym mhob lleoliad (bydd y Datgymalu a Gadael yn cael ei oruchwylio gan y Rheolwr Llwyfan Technegol Cynorthwyol) a bydd hefyd yn gyfrifol am ddadlwytho'r cerbyd fel bo'r angen.

Bydd y Rheolwr Llwyfan Technegol Cynorthwyol yn dysgu sut i gymysgu'r sioe yn ystod y rhediad yn y Sherman er mwyn gallu cyflenwi ar frys os bydd angen.

Bydd y Rheolwr Llwyfan Technegol Cynorthwyol yn gweithio gyda'r Pennaeth Sain ac yn gyfrifol am y gwaith o redeg y meicroffonau radio ar y sioe.

Bydd Macbeth hefyd yn recriwtio Peiriannydd Sain Cynhyrchiad (cyn cynhyrchu) i gefnogi'r cynhyrchiad i gydweithio gyda phobl greadigol a llogi cyflenwyr, cynhyrchu rhestrau cit, paratoi'r meicroffonau, cefnogi ymarferion, cydweithio gyda lleoliadau ac ati. Mae'n bosib i'r ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer Pennaeth Sain hefyd gyflawni rôl y Peiriannydd Sain Cynhyrchiad (cyn cynhyrchu) – rhwch wybod os hoffech gael eich ystyried ar gyfer hyn.

Bydd y Pennaeth Sain yn cadw at holl bolisiâu a gweithdrefnau'r Sherman a'u rheolwr llinell fydd Mandy Ivory-Castile (Pennaeth Cynhyrchu, Theatr y Sherman)